# Ordinhad 12.1

# Y Senedd: Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Newydd |
| **Fersiwn:** | 1.0 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

# Ordinhad 12.1
# Y Senedd: Aelodau Cyfetholedig

1. <u>Aelodau Cyfetholedig</u>

   1.1. Caiff unigolion eu cyfethol gan y Senedd hyd at uchafswm o bedwar aelod yn unol â pharagraff 2.1(f) o Ordinhad 12.

   1.2. Y cyfnod arferol yn y swydd fydd pedair blynedd.

   1.3. Gellir penodi aelod cyfetholedig ar argymhelliad Llywydd/Is-ganghellor y Senedd.

2. <u>Cymhwyster ar gyfer ailbenodi</u>

   2.1. Mae unigolyn a gyfetholir yn gymwys i'w ailbenodi fel arfer am un cyfnod arall, o hyd at bedair blynedd, ac yna bydd yn anghymwys i'w ailethol eto yn yr un categori aelodaeth nes bydd cyfnod o bedair blynedd wedi mynd heibio.

   2.2. Os daw unrhyw sedd yn wag dan amgylchiadau heblaw'r drefn reolaidd, llenwir hi trwy ddull cyffelyb i'r hyn a nodir ym mharagraff 1.3 uchod. Bydd unrhyw un a benodir i lenwi sedd a ddaw'n wag dros dro yn gwasanaethu am yr hyn sy'n weddill o gyfnod y swydd.